

SL(5)663 – Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 ("Rheoliadau 2020") yn dirymu ac yn disodli'r Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 a Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019" gyda'i gilydd).

Diben y Rheoliadau yw sicrhau bod y polisi cyllid myfyrwyr presennol yn parhau am y flwyddyn academaidd 2020/21 ac nad yw'n cael ei effeithio'n andwyol erbyn diwedd y cyfnod pontio. Bydd y Rheoliadau, felly, yn dyblygu'r darpariaethau yn Rheoliadau 2019. At hynny, bydd y Rheoliadau yn sicrhau bod gwladolion yr UE, a grwpiau eraill sydd wedi setlo o dan y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, neu sydd i'w trin felly o dan ddarpariaethau'r Cytundeb Ymadael, cytundeb gwahanu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a Chytundeb Hawliau Dinasyddion y Swistir, yn gallu cael mynediad at yr un cymorth a statws ffioedd cartref ag y byddent wedi gallu ei gael cyn diwedd y cyfnod pontio.

Bydd y Rheoliadau hefyd yn diwygio'r darpariaethau sy'n ymwneud â chymhwysra ar gyfer cymorth i fyfyrwyr i'r rheini sydd wedi setlo yn y DU, ond sy'n arfer hawl i breswyllo mewn man arall yn yr UE ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, ac yna'n dychwelyd i'r DU a dechrau cwrs cyn 1 Awst 2021. Gan na fydd gwladolion y DU bellach yn gallu arfer yr hawl i breswyllo ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, pe na bai'r darpariaethau'n cael eu diwygio, byddai gwladolion yr UE yn cael triniaeth fwy ffafriol na gwladolion y DU. Bydd gwelliant yn sicrhau eu bod yn cael triniaeth gyfartal.

Gweithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:



1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan ddefnyddio pwerau galluogi mewn cyfraith addysg, yn hytrach nag o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, fel sy'n digwydd fel arfer ar gyfer offerynnau statudol sy'n ymwneud ag ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Gweinidog Addysg wedi ysgrifennu at y Pwyllgor yn flaenorol ar 15 Chwefror 2019 mewn perthynas â Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019, gan nodi fel a ganlyn:

"Mae Paragraff 1(1) o Atodlen 2 i'r Ddeddf Ymadael yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i atal, unioni neu liniaru unrhyw achos o fethiant cyfraith UE a gedwir i weithredu'n effeithiol yn sgil ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Gellir dadlau y dylid gwneud y rheoliadau diwygio arfaethedig o dan y pŵer hwn. Fodd bynnag, credaf fod y pwerau deddfwriaeth addysg arferol a nodwyd uchod yn fwy priodol at y dibenion hyn."

Aeth llythyr y Gweinidog yn ei flaen i nodi fel a ganlyn:

"Mae hygyrchedd y gyfraith yn ystyriaeth bwysig yn y penderfyniad hwn.

Nododd y Pwyllgor bwysigrwydd cynnal hygyrchedd y gyfraith yn rhaglen Offerynnau Statudol Ymadael â'r UE yn ei adroddiad diweddar ar graffu ar deddfwriaeth ymadael â'r UE.

Mae deddfwriaeth cymorth i fyfyrwyr yn gymhleth iawn a chaiff ei ddiwygio'n aml.

Ni fydd rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf Ymadael yn gysylltiedig yn uniongyrchol â deddfwriaeth addysg, a byddai hynny'n gwneud darganfod y deddfwriaeth briodol yn anoddach nag sydd raid i'r cyhoedd.

Yn yr un modd, o ran hygyrchedd, bydd teitl y rheoliadau'n cynnwys "Ymadael â'r UE" gan wneud y cysylltiad ag ymadawiad y DU â'r UE yn glir."

Gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau a yw'r rhesmeg uchod hefyd yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn ac os nad ydyw, pam mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan ddefnyddio pwerau galluogi mewn cyfraith addysg, yn hytrach nag o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, fel sy'n digwydd fel arfer ar gyfer offerynnau statudol sy'n ymwneud ag ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd.

Y goblygiadau yn sgîl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Bydd y Rheoliadau hyn yn rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir er nad ydynt yn cael eu gwneud o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Mae'r weithdrefn yn negyddol yn unol â'r pwerau galluogi.



Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli (gydag ychwanegiadau a diwygiadau) Reoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019. Felly, mae'r un rhesymu ynghylch y pwerau galluogi fel y'u hamlinellir uchod yn gymwys i'r Rheoliadau hyn.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 7 Rhagfyr 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod a nodwyd a hefyd i dynnu sylw at faterion sy'n codi o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.

